# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 8 Mai 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(130)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 9 ac 11 i 15. Trosglwyddwyd cwestiwn 10 i'w ateb yn ysgrifenedig.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 3, 5 i 8, 10 i 12 a 14 i 15. Trosglwyddwyd cwestiynau 4, 9 a 13 i'w hateb yn ysgrifenedig.

**Cynnig Gweithdrefnol**

Cafwyd cynnig trefniadol gan Antoinette Sandbach yn unol â Rheol Sefydlog 12.32 i ohirio'r ddadl fer.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 3. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad undydd i farw-enedigaethau yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 14.53

**NDM5231 Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad undydd i farw-enedigaethau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4. Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i bolisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol

Dechreuodd yr eitem am 15.44

**NDM5232 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Bolisi Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.26

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5233 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y manteision bod Cymru yn rhan o'r Deyrnas Unedig; a

2. Yn nodi pwysigrwydd sicrhau dyfodol Cymru o fewn Teyrnas Unedig gref sy'n datblygu.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 14 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.25

## 6. Dadl Fer - Gohiriwyd

**NDM5234 Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: Gwybod am y Gwenyn

Rôl gwyddoniaeth o ran gwarchod iechyd gwenyn fel peillwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:26

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 14 Mai 2013**